Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLOGAETH: Rhaglen flaenllaw newydd i helpu mwy o bobl i gael gwaith

Mae React+, cynllun newydd Llywodraeth Cymru gwerth £13.25 miliwn y flwyddyn, wedi ei lansio heddiw, a bydd yn darparu cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ar hyn o bryd i ddod o hyd i, ac aros mewn, gwaith. Bydd cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn ReAct+ yn cael cymorth tuag at gyflogau gweithwyr newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn ogystal â chyllid ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd. I ddarganfod mwy am React+, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/react

I ddarllen datganiad heddiw gan Llywodraeth Cymru, ewch i:

https://llyw.cymru/rhaglen-flaenllaw-newydd-i-helpu-mwy-o-bobl-i-gael-gwaith-gyda-chymorth-sydd-yr-un-mor-unigryw-chi

## BWYD a DIOD: Cywain ar Daith – Rhwydweithio Rhanbarthol 14 Mehefin 2022

Bydd Cywain yn cynnal digwyddiad Rhwydweithio Rhanbarthol yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, ar 14 Mehefin 2022 (6:00pm-9:00pm), fydd yn gyfle i rwydweithio â phobl eraill o'r un anian a chlywed gan y siaradwyr, Richard Huws – Pant Du, Maggie Ogunbanwo – Maggies Exotic Kitchen a Zoe Henderson – Fungtonal Brewing Company, am sut maent wedi tyfu eu busnesau o syniadau gwreiddiol. Bydd hefyd yn gyfle i ddarganfod sut gall Cywain gefnogi a helpu eich busnes i dyfu. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3mrjVZa

## CYFLE: Sadwrn y Busnesau Bach 2022 – Small Biz 100

Bydd Sadwrn y Busnesau Bach yn tynnu sylw at 100 o fusnesau bach, un y dydd am 100 diwrnod, yn arwain at Sadwrn y Busnesau Bach 2022 a gynhelir ar 3 Rhagfyr 2022. Bydd y 100 ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu hamlygu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Sadwrn y Busnesau Bach ac yn y wasg leol a chenedlaethol. Bydd ceisiadau am Small Biz 100 yn cau ar 30 Mehefin 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com/small-biz-100

# GWOBRAU: Gwobrau Cynnyrch Newydd The Grocer 2022

Mae'r ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Gwobrau Cynnyrch Newydd The Grocer 2022 sy'n dathlu ac yn gwobrwyo arloesedd rhagorol yn sector FMCG y DU (Nwyddau Defnyddwyr sy'n Symud yn Gyflym), yn y categorïau bwyd a rhai nad ydynt yn fwyd. Bydd cynhyrchion sy'n ennill gwobr yn cael eu hamlygu o flaen cynulleidfa o bersonél cwmnïau o'r radd flaenaf ar y noson wobrwyo ei hun, a byddant hefyd yn ymddangos yng nghylchgrawn The Grocer ac ar ei wefan. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 20 Mehefin 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://thegrocernewproductawards.co.uk/live/en/page/home

# CYNNIG: Potel 5 litr o gel diheintio dwylo am ddim

Mae gan Cyngor Gwynedd gyflenwad o ddiheintydd dwylo, sydd angen ei ddefnyddio cyn Medi 2022, ar gael i fusnesau lleol am ddim ar sail y cyntaf i'r felin. Mae nifer o fusnesau lleol eisoes wedi cymryd mantais o'r cynnig yma. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cyflenwad, fydd yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor yn uniongyrchol i'ch busnes, cysylltwch â: PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi eich enw, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad ar gyfer danfon y nwyddau (gan gynnwys cod post), amseroedd o'r wythnos y bydd rhywun yn y lleoliad a'r nifer o foteli sydd eu hangen.

# DIGWYDDIAD: Gweithdy Arwain Arloesi 13 Mehefin 2022

Mae Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi yn ceisio barn i helpu i lywio eu cyfraniad i'r Strategaeth Arloesi newydd i Gymru. Bydd gweithdy Arwain Arloesi, i'w gynnal ar-lein, ar 13 Mehefin 2022 (2:00pm-3:30pm), yn rhoi cyfle i rannu eich syniadau a'ch barn ar

arloesi a llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/strategaeth-arloesi-i-gymru-arwain-arloesi/

## DIGWYDDIAD: Cyfarfod Cymorth Arloesi 15 Mehefin 2022

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag Innovate UK, Innovate UK KTN â'r Innovate UK Edge yn cynnal Cyfarfod Cymorth Cyllid Arloesi ar-lein ar 15 Mehefin (10:00am-4:45pm), i helpu cwmnïoedd a ddewiswyd i baratoi eu hunain yn well ar gyfer cynnal Prosiectau Ymchwil a Datblygu mwy effeithiol. Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gael, felly archebwch nawr i osgoi siom ar:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/crisp22-cyfarfod-cymorth-ar-lein/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru